

Rhagair

Cyfnod cyntaf yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd cyfnod cyntaf ein ymgynghoriad ar ein Strategaeth hirdymor ar reoli perygl llifogydd llanw ar Aber Afon Hafren yn gynnar yn 2011. Bu i ni gymryd sylw o'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a buom yn gweithio'n agos gyda'r cymunedau a'r rhanddeiliaid a leisiodd bryderon am y Strategaeth wreiddiol. Rydym wedi croesawu eu gwybodaeth leol a'u mewnbwn i lunio'r Strategaeth ddiwygiedig. Nid ydym wedi cynnal gwaith ymgysylltu pellach mewn lleoliadau lle roedd pobl yn gytun â'r cynigion ar gyfer y lleoliad hwnnw ar y cyfan.

Yr ail gyfnod ymghynghori a'r un presennol

Mae'r dogfennau a gyflwynir ar gyfer yr ail gyfnod hwn o'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda chymunedau a rhanddeiliaid, ac yn cyflwyno'r opsiynau a'r cynigion presennol ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Rydym yn darparu atebion hefyd i gwestiynau cyffredin a ddaeth o'r cyfnod cyntaf o ymgynghori ac yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu diweddar. Nid yw'r ymgynghoriad yn ceisio gofyn unrhyw gwestiynau newydd ond yn hytrach yn cynnig y cyfle olaf i wneud sylwadau ar yr adeg hon o fodolaeth y Strategaeth.

Newidiadau ers 2011

Mae nifer o ffactorau wedi newid ers cyfnod cyntaf yr ymgynghoriad ac adlewyrchir hyn yn nogfennau ymgynghori'r Strategaeth ddiwygiedig. Rydym wedi ystyried cyngor sydd wedi ei ddiweddarau ar newid hinsawdd gan y llywodraeth. Golyga hyn mai codiad llai yn lefel y môr a gynllunir amdano.

Un o'r pryderon mwyaf yn 2011 oedd mewn perthynas â'r cynigion ar adlinio rheolaethol o'r amddiffynfeydd llifogydd i ganiatáu creu cynefin rhynglanwol. Rhaid i ni fodloni ymrwymadau statudol y Llywodraeth dan Reoliadau Cynefinoedd (2010) i gael yr hawl yn gyfreithiol i barhau i gynnal neu wella amddiffynfeydd llifogydd ym mhob rhan o'r aber. Rydym wedi egluro mai dim ond gyda chytundeb perchnogion tir ac eiddo y gweithredir ar brosiectau adlinio rheolaethol a chreu cynefinoedd.

Adolygu'r Strategaeth

Byddwn yn disgwyl adolygu'r Strategaeth ar y cyd bob deng mlynedd fel y gellir ei diweddarau gyda gwybodaeth newydd ac adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Gallai newidiadau mawr, megis penderfyniad i adeiladu Arglawdd Afon Hafren, sbarduno adolygiad cynharach.